# Llais yr Andes

*Papur Bro Hydref (Trevelin ac Esquel)* *Mai 2014*

Pris: $10

# Pen-blwydd Llawen Esquel!
# Chwefror 25ain




Noson yng nghwmni Eric Jones - tud. 3

Ymweliad Aelodau Seneddol - tud. 6

Cornel y plant - tud. 10

............................. a llawer llawer mwy!!

Eluned Evans Grandis

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf at Eluned - elunedowena@hotmail.com.  Diolch yn fawr.

## Cwrdd Diolchgarwch

Prynhawn dydd Sul y 6ed  o Ebrill, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Seion Esquel dan ofal Eluned ac Isaías, a daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i wrando ar eu neges. Tro Capel Bethel Trevelin oedd hi y Sul canlynol a diolch i bawb am eu rhoddion hael. Hyfryd oedd agor drysau'r ddau gapel a gweld yr olygfa hardd-blodau, llysiau, ffrwythau a jams o bob math yn addurno'r pulpud.

Cymerodd sawl aelod ran yn y ddwy oedfa a diolch yn arbennig i Vilma Roberts ac Arturo Lowndes am chwarae'r organ, i Alejandro Jones am ganu unawd ac i Maria Esther Evans am ei help llaw.












## Clwb Siarad Trevelin

Eisiau sgwrsio'n y Gymraeg?  Dewch i Glwb Siarad Trevelin sy'n cael ei gynnal bob nos Fercher am 6 o'r gloch yn El Único Trevelin. Ymunwch â`r criw - Norma, Maria Esther, Estela, Isaías, Alwen, Randal ac Eluned.



# Noson yng Nghwmni Eric Jones




Ydych chi'n hoff o gerdded? Dringo mynyddoedd hyd yn oed? Hoffech chi neidio allan o awyren gyda dim ond parasiwt i achub eich bywyd? Beth am fynd i ben rhaeadr neu i ben clogwyn a neidio i'r gwacter efo dim ond y parasiwt i'ch achub?!

Beth am rywun sydd wrth ei fodd yn gwneud bob un o'r pethau yma a mwy ac sydd yn bwriadu dathlu ei benblwydd yn 80 trwy wneud naid o'r fath?! Roedden ni yn Esquel yn ddigon lwcus i gael cwmni y dringwr enwog Eric Jones yn y Ganolfan er mwyn rhannu ei hanesion difyr gyda ni ar Chwefror 13. Roedd Eric ym Mhatagonia er mwyn ffilmio rhaglen am ei fywyd fydd yn cael ei darlledu yng Nghymru fel rhan o'r dathliadau 'Llwybr tuag at Ganmlwyddiant a Hanner y Cymry yn y Wladfa'. Estynnwyd y croeso iddo fo a'i dîm ffilmio gan Marcelo Roberts, Cadeirydd Pwyllgor yr Andes o Bwyllgor y dathliadau gyda Clare Vaughan yn cyfieithu ar y pryd.

Aeth Eric ymlaen i olrhain hanes ei fywyd o'i ddyddiau cynnar ar fferm yn Nyffryn Clwyd a sut ddechreuodd ddringo ar ei ben ei hun heb raffau oherwydd bod ei ffrind



wedi ffeindio cariad a cholli diddordeb yn y dringo yn gadael Eric efo'r opsiwn i ddringo *solo* neu beidio dringo o gwbl! Roedd y gynulleidfa yn drawsdoriad o siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a dringwyr lleol ond yr un oedd yr ymateb wrth i Eric ddangos sleidiau o'i gampau gan gynnwys dringo wyneb gogleddol yr Eiger yn y Swisdir ar ei ben ei hun, teithio mewn balŵn dros Everest, mynydd ucha'r byd, ac ei brofiadau yn neidio BASE.

Mae BASE yn golygu *Building* (adeilad) *Antenna* (antena) *Span* (pont) *Earth* (y ddaear) a dechreuodd Eric neidio o bethau uchel fel hyn pan ddathlodd ei benblwydd yn 50 oed! Dangosodd o ddarnau fideo i ni o'i neidiau o raeadr yr Angel yn Venezuela ac i mewn i Ogof y Gwenoliaid ym Mecsico pan oedd yn 61 oed, y person hynaf i wneud y naid hyd yn hyn; roedd sawl 'wwwww' o'r gynulleidfa wrth i ni wylio'r naid rhydd ac wedyn agoriad y parasiwt ar y funud olaf – neu felly roedd yn ymddangos i ni!

Roedd Eric yn mynd ymlaen o Esquel i ddringo yn ardal El Chaiten gyda dringwr ifanc a ddaeth efo fo i Batagonia sef Ioan Doyle o Fethesda ac roedd y ddau yn mynd i ail-ymweld â llefydd lle roedd Eric wedi dringo ar ymweliadau blaenorol yn y 90au. Roedd yn wir fraint cael cwmni dyn mor fentrus ond eto mor ddiymhongar ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld y rhaglen pan fydd wedi'i darlledu ac i glywed mwy am anturiaethau y Cymro eofn hwn.

*Clare Vaughan*

# Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau gwresog i ddwy o athrawesau Ysgol Gymraeg Trevelin sef Sara Borda Green a Laura Niklitschek sydd wedi graddio yn ddiweddar - Sara yn y Cyfryngau gyda Gwleidyddiaeth a Chynllunio a Laura sydd wedi hyfforddi i fod yn athrawes Ffiseg. Ardderchog yn wir!



**Laura Niklitschek** ydw i, a dw i'n byw yn Nhrevelin. Dw i wedi gorffen y brifysgol ac athrawes Ffiseg ydw i yn barod, ar ôl pum mlynedd o astudio. Dw i'n eitha siŵr bod chi'n meddwl: "Ffiseg! Ych a fi! Pam bod hi eisiau dysgu fe?" Wel, sa i'n siŵr am yr ateb, i fod yn onest. Dw i'n hoff iawn o Ffiseg: dw i'n joio deall y pethau (dych chi 'di teimlo'r teimlad ar ôl deall rhywbeth anodd? Fel "aaaah, dw i'n deall nawr" a theimlo'r "endorffiniau" yn dod mas) a ro'n i'n arfer gofyn am lot o bethau pan o'n i'n blentyn. Ond, pam bod yn athrawes? Wel, mae pobl sy'n dweud (yn Saesneg): "os dwyt ti ddim yn gallu ei wneud e, dysga fe". Ffiseg: astudio'r un peth pob dydd am sawl blwyddyn ysgrifennu adroddiadau am bopeth, cystadlu yn erbyn pobl ifancach... ych a fi! Mae'n well 'da fi siarad â phobl ifanc am bethau gwahanol pob dydd, ateb cwestiynau diddorol, gwneud gwaith arbrofol. Wel, sa i'n gwybod pam ydw i'n hoffi bod yn athrawes Ffiseg, ond dw i'n joio fe (y rhan fwya o'r amser)!

Ar ôl gorffen, ym mis Mawrth, do'n i ddim eisiau meddwl lot. Ro'n i wedi blino'n lân, achos ro'n i'n gweithio ac astudio ar yr un pryd, ac roedd e'n anodd iawn. Dyna pam ´mod i eisiau mwynhau'r presennol, a gwneud pethau o'n i'n colli, fel cwrdd â fy ffrindiau, siarad Cymraeg, arlunio a chysgu (yn hwyr!)... Sa i eisiau penderfynu lot nawr, ond dw i'n edrych ymlaen at beth ydw i'n gallu gwneud yn y dyfodol. Cawn ni weld... Mae lot (gormod) o bethau dw i eisiau dysgu a gwneud. Ac, un diwrnod, dw i eisiau dysgu Ffiseg drwy gyfrwng y Gymraeg!

**Croeso nôl** ............ i Camila Dossi, Trevelin a wnaeth dreulio tymor y Pasg yng ngholeg Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin yn cynorthwyo yn yr Adran Gymraeg. Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes yn y rhifyn nesaf!

Ewch i *'YouTube'* a theipiwch *Menter Patagonia Yr Andes* a chewch weld nifer o fideos ............ac mae mwy ar y ffordd!

## Clwb Dawnsio Gwerin Trevelin dan arweiniad Jessica Jones

Plant—nos Wener am 18:00 yn Ysgol y Felin
Plant hŷn ac oedolion—nos Iau am 20:00 yn Ysgol y Felin



## Gŵyl Geltaidd




Roedd yn wych gweld Cymraeg yn yr encuentro gydag ysgolion Trevelin ac Esquel a Chymdeithas Esquel yn cael eu cynrychioli. Roedd paned a theisen fach i'r rhai alwodd yn y babell i weld y gymdeithas tra oedd Fflic a Fflac yn barod i groesawu'r plant gyda digon o liwio, llyfrau a gemau i'w diddanu. Roedd y gwersi blasu dan arweiniad Clare yn llwyddiant gydag ugain o bobl yn dysgu sut i gyfarch yn Gymraeg! Ymunodd criw dawnsio Trevelin dan arweiniad Jessica gyda chriw Gwanwyn i greu dawnsfeydd lliwgar. Llongyfarchiadau i bawb fu'n llafurio yn y gwres llethol ar lan yr Afon Fawr i sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy, a diolch i chi fu'n helpu.



# Ymweliad Aelodau Seneddol



Bu tipyn o gynnwrf yn yr ardal pan ymwelodd griw o aelodau seneddol Llundain â ni yn ddiweddar. Nid bod ymwelwyr o'r Hen Wlad yn beth dieithr erbyn hyn, ond 'roedd rhain yn bwysig! Nhw sydd ar Bwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan. Rhagbrawf oedd eu taith o ddathliadau'r Cant a Hanner y flwyddyn nesa', sef 2015.

Cawsom wahoddiad gan lysgenhadaeth Prydain yn Buenos Aires i dderbyniad yn y Ganolfan yn Esquel, ac yno daethom i adnabod a chael sgwrs efo nhw.

David Davies oedd yr arweinydd ac ar ôl ei araith fer cafodd maer Esquel, Rafael Williams ysgwyd llaw a dweud rhai geiriau i ddiolch am yr ymweliad. Cristin Jones oedd yn siarad ar ran Cymdeithas Gymraeg Esquel a Threvelin a Clare oedd yn cyfieithu.



Cefais y fraint o sgwrsio efo Siân James o ardal Abertawe, a deall ein bod wedi mynychu yr un brifysgol! Dechreuodd hi ar ei gyrfa wleidyddol wrth ymgyrchu ar ran y glowyr adeg y streiciau yn yr 80au.

Y diwrnod canlynol daethant i lawr i Drevelin i gapel Bethel ac i weld rhai o'r dosbarthiadau oedd yn y Tŷ Capel ar y pryd. Yno oedd Jessica a Sara efo plant Meithrin Un, wrthi'n brysur ac hefyd rhai o'r oedolion efo Eluned yn barod i gael sgwrs, ac allan ar y lawnt 'roedd Alwen a Nora wedi paratoi paned o de, a mate, gyda darn o deisen i'w croesawu. 'Roedden nhw wrth eu bodd! Yn enwedig gan fod y tywydd yn hynod o braf, ar bnawn hyfryd o hydref.



Cawsom hefyd fynd i swper yn Esquel cyn ffarwelio â nhw. Yno ces i gyfle i sgwrsio efo Anwen Rees. 'Roedd hi wedi ei magu ac yn byw yn Llundain, gan fod ei rhieni wedi symud yno i fyw ac yn cadw gwesty lle deiau llawer o Gymry i aros pan ar ymweliad â'r brifddinas. Nid aelod seneddol ydi hi ond y mae yn gweithio i'r Pwyllgor fel Arbenigwraig. 'Roedd hi'n 'nabod, ac yn dod â chyfarchion i mi, oddiwrth Huw Evans, sydd wedi gwneud bywoliaeth yn canu yn Llundain. Bachgen bach oedd o pan oeddwn i yn byw yn Llanio ger Tregaron, a byddem yn mynd i'r Ysgol Sul i'r Ysgoldy lle 'roedd ei daid a'i nain o yn byw. Mae'r byd yn fach!



Ar ôl bod yma yn yr Andes, aethant i lawr i'r Dyffryn i weld pobl Trelew, Gaiman, Madryn a gweddill yr ardal a chyfarfod â swyddogion y dalaith. Maent yn ôl adre ac yn eu gwaith erbyn hyn, gobeithio iddynt gael amser da yma yn yr Ariannin. Diolch iddynt am ddod i'n gweld!

*Mary Green*

# Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013

'Saernïwyd y gwaith hwn yn gelfydd. Llwyddodd Vivaldi i gadw cydbwysedd rhwng y disgrifiadol, y ffeithiol a'r atgofion bach o'r oes o'r blaen. Cefais wir flas ar ei waith. Dyfarnaf y wobr gyntaf i *Vivaldi*.' – Nans Rowlands.

Llongyfarchiadau gwresog i Esther Valmai Evans Hughes am ennill y gystadleuaeth.



## Y Pedwar Tymor yn Y Wladfa

### Y Gaeaf

Glaw, niwl, rhew, eira. Dyddia' byrion, tywyll, yr haul yn bell ac yn wan, nosweithiau hir............. Dyna sut y mae pawb yn meddwl amdano pan soniwn am y gaeaf. Pawb ond y rhai sydd yn medru teithio am wylia' i wlad bell yn y gogledd. Mae teithio wedi dod mor hawdd a phoblogaidd yn yr oes yma fel bod pobl yn gallu hedfan i Brasil neu i'r Caribî yng nghanol ein gaeaf ni, ac yna mwynhau traeth a môr cynnes, dillad ysgafn a bwyd lliwgar.

Ond ar ffarm yn y wlad rydan ni wedi byw. Felly, rhaid oedd paratoi ar gyfer y gaeaf: gofalu am ddigon o goed tân; gwair a grawn i'r anifeiliaid; popeth i'r tŷ ar gyfer bwyd maethlon; dillad i'r teulu, bwtsias da, sanau gwlân, *poncho*; cap cynnes i arbed y clustia' rhag cael poen clust a chrio yn y nos. Byddai'n rhaid cofio am ffisig at y peswch, *aspirin, Vick Vaporub,* gwahanol fathau o eli, oel i'r lamp, canhwyllau, a llawer o bethau eraill gan fod y dre ymhell a'r llwybrau'n ddrwg, a'r gaeaf yn hir ambell flwyddyn. Ond roedd ein teulu bach ni reit ddiogel a llawen drwy'r cwbl – ar nosweithiau clyd tra oedd y glaw'n pistyllio ar y to. Felly'r oedd hi pan oeddwn i'n magu'r plant, neu ymhellach fyth yn ôl pan oeddwn i'n blentyn. Pe bai'n bwrw eira, roedd rhaid agor llwybrau efo'r gribin i nôl coed tân, rhoi bwyd i'r ieir, a'r dynion yn cychwyn ar gefn ceffyl i weld y defaid.

Ond nid fel 'na y mae hi erbyn hyn. Mae'r tywydd wedi newid trwy'r byd. Dydi'r gaeaf ddim fel yr oedd o. Does dim cymaint o eira'n disgyn ac felly eithriad ydi hi i anifeiliaid gael eu mygu o dano. Ac o ganlyniad i'r ffaith fod llai o eira, nid oes cymaint o ddŵr yn yr afonydd, y nentydd a'r ffynhonnau.

Yn y dre, mae'r gaeaf yn wahanol i'r hyn ydyw yn y wlad, gan fod y ceir yn gyson yn gwasgu'r eira nes ei fod yn caledu a rhewi, ac felly'n beryglus i gerdded drosto ac mae sawl un yn llithro a syrthio ar ei hyd (ac yn ffodus na fydd wedi torri asgwrn).

Mae trwch o eira ar y mynydd yn atyniad i'r rhai sydd yn hoff o sgïo ac maent yn dod yn lluoedd yma mewn dillad lliwgar ffasiynol. Mae hynny'n dda i ddiwydiant twristiaeth y dre. Dydi pobl gyffredin ddim yn gallu fforddio adloniant o'r fath – trafferth yn fwy na dim ydi'r eira iddyn nhw. Yn y dre hefyd, mae nwy ymhob tŷ ac felly mae'r tymheredd yn cadw'n gynnes a gwastad ddydd a nos ac mae hynny wedi gwella bywyd pobl yn llwyr.

Mae golwg hyfryd ar yr ardd os bydd eira ysgafn wedi disgyn ar y coed. Mae'n rhaid cofio cadw briwsion yn y cysgod i'r adar bach – maen nhw'n edrych yn oer a digalon.

Mae'r tai yn y dre â'u *shutters* ar y ffenestri i'w cau pan ddaw'r nos; yn y bore rhaid disgwyl iddi fod yn ddigon golau y tu allan i'w hagor. Ond yn sydyn ryw fore, rydan ni'n ystyried fod modd agor y *shutters* yn gynt.....ac felly o ddydd i ddydd. Dyma'r arwydd cynta fod y gwanawyn wrth y trothwy. Rhyfeddol drefn Rhagluniaeth!

### Y Gwanwyn

I'r gwanwyn, yn fwy nag i'r tymhorau eraill, y mae beirdd a chantorion wedi canu ar hyd yr oesoedd. Dywedwyd mai dyma'r tymor sydd yn dechrau troi'r rhod, mai dyma'r amser pan mae pawb mewn cariad, yn llawen wrth ddod allan i'r haul o'r gaeaf oer, tywyll. Y gwir yw nad yw'r gwanwyn yn braf bob amser. Yn ein gwlad ni, mae'n ddiarhebol dweud 'rhaid pasio Awst' (*hay que pasar agosto*) fel sicrwydd y byddwn yn ddiogel wedyn rhag afiechydon y gaeaf.

Ond roedd hen gymdoges annwyl i mi yn fy mhlentyndod, Siân Fach, yn arfer dweud ‘Gwylia di efo mis Medi, achos mae Medi’n cymryd benthyg pythefnos o Awst’. Digon gwir, gan fod y gwynt yn oer iawn ac yn rhewi’n aml yn y nos nes y bydd hi’n fis Tachwedd. Ond mae gweld prysurdeb y ffermwyr yn codi ysbryd – aredig a hau, sŵn y tractor, a gobaith newydd am flwyddyn lwyddiannus.

Daw’r blodau cynnar i’r golwg, blodau bach yr eira a’r cennin Pedr, a mae’r coed ffrwythau’n blodeuo. Mae coeden afalau neu geirios yn gwmwl o flodau gwyn a phinc yn olygfa wirioneddol hardd, yn enwedig os bydd gwenyn yn sïo o gwmpas. Mae’r adar yn trydar ac yn prysur baratoi eu nythod. Daw’r rhai a oedd wedi ymfudo yn ôl. Mae’r gornchwiglen yn twtio chydig ar ei nyth, bron yn yr un fan â’r llynedd, nad yw’n ddim mwy na phant bach yng nghanol gwellt a cherrig mân. A dywed y rhai sy’n gwybod fod y wennol yn dod yn ôl i’r union nyth lle’i ganwyd y llynedd, o dan y bargod. Rhyfeddol! Adar eraill a ddaw’n ôl yw’r adar-pig-hir – teulu’r gylfinir, yn swnllyd iawn o ben y coed uchel, fel pe bai i gyhoeddi eu bod nhw yma eto, i eni a magu eu cywion, a bwyta’u siâr o bryfed. Mae’r ŵyn bach a’r lloi’n britho’r caeau, a gofal y ffarmwr yn fawr amdanynt, rhag y llwynog a’r adar ysglyfaethus. Ers talwm, a ninnau’n blant, adeg o brinder oedd y gwanwyn ar y ffarm. Doedd dim math o lysiau na ffrwythau’n dod o’r gogledd fel y gallai’r teulu eu prynu, ac roedd ein tatws a moron bron â gorffen a hefyd yr afalau. Lwcus fod mam wedi gofalu sychu afalau ag eisin ar gyfer yr amser tlawd yma. Doedd yr un yn barod yn yr ardd.

Roeddem yn casglu berw’r dŵr neu ddail tyner dant y llew i wneud salad – a dyna flasus oeddent efo cig rhost. Arferai’r mamau ferwi dail poethion yn y gwanwyn a rhoi’r trwyth i’r teulu i yfed bob bore ‘i buro’r gwaed’. Meddyginiaeth yr oedd yr hen Gymry wedi dod ag ef efo nhw o’r Hen Wlad oedd hwn, mae’n siŵr.

Mae llawer o waith i’w wneud yn y gwanwyn. Gan ei bod hi’n gynhesach, bydd pawb yn agor ffenestri a glanhau gwydrau, awyru’r tai a chypyrddau dillad ar ôl trymder y gaeaf. Y tu allan, mae angen tocio a chwynnu gan fod popeth yn tyfu’n gyflym iawn y tymor yma. Ac, felly, â’r tywydd braf, a’r dydd yn hirach, heb i ni sylwi bron, byddwn wedi treulio amser rhamantus iawn.

## Yr Haf



‘O na byddai’n haf o hyd’ – llais hyfryd Aled Wyn Davies yn canu. Dyma ddymuniad y rhai sydd yn hoffi tywydd poeth, boreau braf, dillad ysgafn a bywyd allan yn yr awyr agored. Yn yr haf, mae ymwelwyr yn heidio yma i’r mynyddoedd a’r llynnoedd sydd o’n cwmpas. Felly hefyd i lan y môr. Mae gan ein gwlad arfordir eang iawn a digonedd o drefi ar ei hyd wedi eu haddasu ar gyfer y miloedd sydd yno’n ymdrochi yn y môr a’u crasu eu hunain ar y tywod poeth. Ond pobl y mynyddoedd a’r coedwigoedd ydan ni, gwell gennym eistedd neu orwedd ar lan afon fyrlymus yng nghysgod coed. Ac er bod dŵr ein llynnoedd yn oer, mae pawb yn ymdrochi ynddyn nhw. Mae teuluoedd yn gwersylla o’u cwmpas am ddyddiau i ymlacio ar ôl misoedd o waith a straen.

Perygl mawr yn yr haf yn ein hardaloedd ni yw tân y goedwig, sydd weithiau’n para am ddyddiau neu wythnosau ac yn difetha’r amgylchedd er i’r dynion tân fod yno’n gweithio’n galed yn y gwres i geisio’i drechu. Mae awyrennau’n hedfan drosto a gollwng dŵr dros y tân, ond ni allant wneud hynny os bydd gwynt. Glaw’n unig sydd yn ei ddiffodd. Mae tân yn y goedwig yn gadael golygfa druenus ar ei ôl, llethrau’r mynydd yn ddu a moel, a thrwch o ludw o dan draed.

Ar y ffarm, dyma’r amser i dorri a gwneud peli gwair a’u cario dan do neu eu gorchuddio i’w cadw’n sych at y gaeaf. Amser diddyfnu’r ŵyn a’u rhoi mewn cae da â digon o ddŵr ynddo. Amser pan fydd prynwyr hyrddod yn dod i’w nôl a thalu amdanynt. Amser gwerthu hen ddefaid. Amser cynaeafu’r ffrwythau cynnar – rhai ohonynt, fel mafon a mefus, yn aeddfedu bob dydd ac angen eu casglu’n ddyddiol. Wedyn gwneud jam efo nhw, ac yna’u potelu neu eu rhewi, i wneud tarten i rai o’r teulu sydd yn cael eu pen-blwydd yn y gaeaf.

Bydd yr ysgolion wedi cau a'r plant yn cael rhyw ddau fis o wyliau, a'r rhieni'n dyfeisio beth i'w wneud i'w cadw'n hapus.  Mae'r haf yn gyfnod prysur a dydi hi ddim yn hawdd i ffarmwr a'i deulu gael gwyliau ar lan y môr.

Yn nhymor yr haf y digwydd y Nadolig.  Bydd rhai athrawesau wedi gwahodd y plant at ei gilydd rai wythnosau yng nghynt i ddysgu carolau a stori'r geni iddynt.  Bydd y capel wedi'i addurno'n hyfryd a choeden lawn teganau yn y gornel.  Ar ôl cyngerdd byr, daw Santa Clôs, siŵr o fod, gan beri llawenydd mawr.  Yn y cartrefi, bydd y dathlu wedi digwydd y noson cynt efo'r teulu, nain a taid, plant ac wyrion, perthnasau a ffrindiau pawb wedi darparu'r bwyd gorau, bwyd oer, cyw iâr neu fochyn bach, salad o bob math, gan gynnwys salad ffrwythau a hufen iâ.  Anrhegion i bawb a gwydriad o siampên ganol nos i ddymuno Nadolig Llawen i bawb!

## Yr Hydref

Ym mis Mawrth, mae'r hydref yn dechrau yn ein gwlad ni.  Erbyn hynny, mae'r dydd wedi byrhau a'r nos yn hirach.  Bydd y plant wedi bod yn yr ysgolion ers rhai wythnosau a phrysurdeb blwyddyn arall yn ei anterth i'r athrawesau.

Bydd ffrwythau fel afalau, gellyg a chwinsis wedi aeddfedu ac yn barod i'w casglu, a'u jamio neu eu cadw dros y gaeaf mewn lle ffres a thywyll.  Bydd y ffermwyr sydd wedi hau gwneith, ceirch neu ryw rawn arall yn ei dorri a'i ddyrnu efo peiriannau modern, mawr.  Mae popeth wedi newid o fewn cenhedlaeth – does dim sôn am y 'dyrnod dyrnu' a oedd mor arbennig mewn oes a fu pan oedd angen llawer iawn o ddynion i wneud y gwaith.  Mor hyfryd yw gweld cae aeddfed melyn yn sïo yn y gwynt – mae'n rhoi rhyw deimlad o lawnder, sicrwydd o ddefnydd bwyd i ddyn ac anifail dros y tywydd caled, oer sydd o'n blaenau.  Gyda'r rhew cyntaf, bydd dail y coed yn dechrau newid eu lliw, ac yna'n syrthio'n garped ysgafn ar y llawr.  Yn ein hardal fynyddig ni, mae'r llethrau'n troi'n felyn, oren, coch a brown, gan fod yno goedwig drwchus gynhenid.  Dyna olygfa fendigedig, gydag ambell goeden fytholwyrdd yma ac acw yn eu canol!  Ac felly'r coed poplys uchel o gwmpas y tai, yn ennill mwy o liw aur bob nos efo'r rhew.  Rwy'n cofio, pan oeddwn i'n ifanc, glywed y mamau'n sôn bod pobl yn fwy tebygol o gael iselder ysbryd efo 'cwymp y dail.'  Tybed a oes sail i'r gred hon?

Gallaf ddweud bod rhywbeth hudolus yn y tymor yma.  Dyddiau tawel, tyner, yr awyr yn ysgafn, a dim gwynt, a natur o'n cwmpas yn newid ei gwedd bob dydd.  Bydd yr adar, sy'n ymfudo, fel y cornchwiglod, y gwenoliaid, ac eraill, yn cychwyn i ffwrdd heb i ni sylwi bron.

Ar y ffarm ddefaid, dyma'r adeg y bydd cwsmeriaid yr hyrddod yn dod i'w llwytho a thalu amdanynt.  Bydd yr ŵyn wedi ei diddyfnu ers rhai wythosau a chânt ofal arbennig mewn cae â digon o ddŵr  ynddo.  A bydd yr hyrddod sydd wedi eu dethol i fynd i'r arddangosfa yr haf nesaf yn cael eu rhoi dan do.  Felly'r lloi sydd erbyn hyn yn fawr a thew ac yn barod i gael eu gwerthu. Bydd yr ieir druan yn colli eu plu ac O! yn stopio dodwy am rai wythnosau tra mae'r cywion yn prysur dyfu ac yn bwyta'n ddi-stop.  Rhaid mwynhau a manteisio i'r eithaf ar y tymor yma, gan fod y tywydd oer a thywyll o'n blaenau.

A dyma fy hoff amser o'r flwyddyn.



# Cornel y plant

## Dathlu'r Pasg





Yn ystod y Pasg, mae Mam yn rhoi siocled wedi toddi mewn moldiau ac ar ôl iddyn nhw ddod allan o'r oergell, dyn ni'n eu haddurno – rhai yn las a rhai yn goch a rhai yn felyn. Dyn ni'n bwyta 3 neu 4 ŵy Pasg yr un. Rhaid i ni fwyta'n gyflym iawn neu gadw'r wyau mewn lle diogel yn y tŷ achos dyn ni'n bedwar brawd a dyn ni i gyd yn hoffi siocled! Mae 'acto' yn yr ysgol hefyd gyda chanu a dawnsio a rhai o'r plant yn gwisgo i fyny fel cwningod (ond dim ni!!!!)

*Maxi a Jere (Esquel)*

I ddathlu'r Pasg, fe wnaeth dosbarthiadau Meithrin a phlant Esquel a Threvelin fwynhau 'Helfa Wyau Pasg' ymysg gweithgareddau hwyliog eraill.









**Clwb Ti a Fi Trevelin** Croeso i bawb - babanod, mamau, tadau, neiniau a theidiau i Ysgol Gymraeg yr Andes Trevelin rhwng 16:30 a 17:30 bob prynhawn dydd Iau. Cysylltwch ag Eluned am fwy o wybodaeth.

# Ysgol Feithrin Esquel




# Ysgol Feithrin Trevelin



# O'r dosbarthiadau....................

## Diwrnod ym mywyd.................Ryan (Esquel)





Dw i'n codi am 7 o'r gloch, wedyn dw i'n cael brecwast ac yn mynd i'r ysgol am hanner awr wedi saith.  Dw i'n cerdded yn ôl am ugain munud i un.  Yn ôl yn y tŷ, dw i'n cael cinio efo'r teulu ac wedyn dw i'n mynd i'r ffarm i helpu fy nhad tan hanner awr wedi pump.  Ar ôl hynny rhaid i fi fynd i'r dosbarth Cymraeg o 6:30 tan 8:00.  Yn y nos fel arfer, dw i'n chwarae pelota paleta (gêm sy'n dod yn wreiddiol o wlad y Basg).

## Diwrnod ym mywyd................Francis (Trevelin)





8:00 – Dw i'n codi

8:30 – Dw i'n bwyta tost ac yn yfed te

9:00 – Dw i'n mynd i wneud gymnasteg

10:00 – Dw i'n edrych ar y pêl droed

12:00 – Dw i'n bwyta cinio

13:00 – Dw i'n mynd i'r ysgol (Ysgol 705)

18:45 – Dw i'n mynd i'r Ysgol Gymraeg

20:15 – Dw i'n mynd i'r Clwb Dawnsio Gwerin

23:00 – Dw i'n cysgu


Dyma lun ohona i, grŵp arddegau Ysgol Gymraeg Trevelin a'n hathrawon Sara, Jessica ac Eluned yn cyd-adrodd yn Eisteddfod Trevelin y llynedd.  Erbyn i chi ddarllen hwn, byddwn ni wedi cystadlu (ac ennill gobeithio!) yn Eisteddfod Trevelin 2014.  Byddwn ni hefyd yn dawnsio gwerin yn yr Eisteddfod.  Mae Clwb Dawnsio Gwerin bob nos Iau a Jessica sy'n ein dysgu.  Dyn ni'n perfformio yn yr Eisteddfod, mewn cyngherddau a mewn priodasau.  Dw i'n hoffi dawnsio!



Fi!

Lingo Darllenwch am y Teulu Austin (Soraya, Luis a Rhys) yn rhifyn nesaf 'Lingo' - y cylchgrawn i ddysgwyr y Gymraeg.

# Fy hoff le




Fy hoff le i ydy Ynys Zakynthos yng Ngwlad Groeg. Es i 7 mlynedd yn ôl gyda fy nheulu i. Wnaethon ni aros mewn gwesty tair seren am wythnos. Roedd y tywydd yn braf a roedd hi'n gynnes iawn. Teithion ni ar gwch o gwmpas yr ynys. Cyn cyrraedd y traeth, roedd y cwch wedi stopio a wnaethon ni nofio i'r traeth. Roedd y môr yn las golau iawn iawn a mi wnaethon ni weld pysgod bach. Wnaethon ni fwyta bwyd traddodiadol o´r ardal – salad efo pob math o gaws a thomatos, cig eidion a llysiau. Ar ôl swper, mi wnaethon ni ddawnsio efo grŵp o Wlad Groeg a chawson ni lawer o hwyl. Roedd cylch o dân ar y llawr a phawb yn dawnsio. Ro'n ni'n gallu gweld yr haul yn machlud yn y pellter – hyfryd!

*Nora Winter*





Fy hoff le yn y byd yw 'Y Chwarter Gwag' yn Oman a Saudi Arabia. Darllenais i am y lle hwn yn llyfrau Wilfred Thesiger. Yr oedd yn gyfaill i Dywysog Cymru. Es i yno yn 2001 am y tro cyntaf. Teithiais ar fws o Abu Dhabi i Muscat, prifddinas Oman. Roedd rhaid i mi ofyn am drwydded arbennig i fynd i mewn i'r 'Chwarter Gwag'. Mae'n hardd iawn. Mae rhai o'r twyni tywod yn fwy na 700 metr o uchder. Bedwins yw'r bobl ac maen nhw'n byw mewn pebyll. Maen nhw'n ddiddorol iawn ac yn gyfeillgar iawn.

*Jeremy Wood*

Dosbarth Meistroli Clare Vaughan yn Nhrevelin - Laura, Isaías, Jessica, Margarita a Sara



## Steph

Bu Steph Davies o Aberteifi yma'n yr Andes yn ddiweddar yn cyfweld â nifer o bobl yr ardal. Bwriad ei phroject ('Project Hiraeth') yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ifanc Aberteifi am hanes y Cymry ym Mhatagonia drwy gyfrwng arddangosfa yng Nghastell Aberteifi a fydd yn cynnwys clipiau ffilm, ysgrifau, lluniau a sain. Diolch iddi am ei gwaith di-flino a phob dymuniad da gyda'r project.



# Cyfweliad gyda Judith Ellis

**1. Dyweda ychydig am dy gefndir.**

Dw i'n dod o Drevelin yn wreiddiol, ces i fy magu ar y ffarm yn ardal Cwm Hyfryd, a dw i'n byw yn Nhrevelin ar hyn o bryd. Enw fy nhad ydy Eduardo Ellis ac enw fy mam oedd Valmai Hughes. 'Naeth fy mam fagu fi yn yr iaith Gymraeg. Dw i'n athrawes ysgol gynradd a rwan dw i'n cydweithio efo Jessica Jones fel athrawes yn Ysgol Feithrin Cymraeg Trevelin.

**2. Disgrifia ddiwrnod cyffredin i ti.**

Yn y bore dw i'n yfed mate a bwyta bisgedi plaen efo jam cartref. Dw i'n licio gweu yn y bore ac er dw i ddim yn licio, dw i'n arfer glanhau'r tŷ hefyd. Wedyn dw i'n coginio i'r plant. Yn y prynhawn dw i'n arfer cael siesta bach yn gyntaf ac ar ôl hynny dw i'n gwneud pethau ar y cyfrifiadur dros y we. Yna dw i'n hoffi cael te efo bara a jam a chaws. Dwy waith yr wythnos dw i'n cael dosbarth Cymraeg i wella ffordd o siarad iaith fy mhlentyndod. Yn y nos dw i'n gwneud swper i'r teulu cyfan.

**3. Pa dri pheth allet ti ddim gwneud hebddyn nhw?**

Mate, bag a'r car.

**4. Pa un yw diwrnod pwysicaf dy flwyddyn?**

Nadolig, Blwyddyn Newydd a Diwrnod y Mamau.

**5. Pwy yw dy arwr?**

Fy nhad.



**6. Beth sy'n gwneud i ti chwerthin?**

Llawer o bethau cyffredin.

**Dy hoff:**

Lyfrau – Llyfrau Danielle Steel

Emyn – 'En Jesucristo puerto de paz'

Darn o gerddoriaeth – Fy mam yn canu 'Gee Ceffyl Bach'

Ffilm – Ghost

Lle – San Rafael (Mendoza)

Gair – Cariad Mam

Taith – I Salta a Jujuy

Bwyd – Asado fy nhad

Enw – Elinor



# Priodas yng Nghwm Hyfryd



Unwaith eto cryfhawyd y cysylltiadau rhwng Y Wladfa a'r Hen Wlad pan ar ddydd Sadwrn 8 Mawrth 2014 dathlwyd priodas Eluned Evans o Landdarog, Sir Gaerfyrddin ac Isaías Grandis Trevelin (o Górdoba yn wreiddiol). Roedd Eluned yn athrawes yng Nghymru cyn ymuno â ni yn yr Andes yn 2010 fel athrawes a Swyddog Menter a daeth yn ôl yn 2013 am ail flwyddyn ac mae Isaías, sydd wedi ennill Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol 2012 Cymru yn diwtor yn yr Ysgol Gymraeg yn Nhrevelin ac yn athro hanes mewn ysgolion lleol.




Roedd Capel Bethel Cwm Hyfyd dan ei sang wrth i'r cwpl ddathlu eu priodas gyda gwasanaeth crefyddol dan arweiniad ffrindiau a theulu gan gynnwys pregeth yn Sbaeneg gan ewythr i Isaías a ddaeth o Górdoba, darlleniad o gerdd 'Priodas' gan Dic Jones gan Alwen Green yn ogystal â chyfraniadau cerddorol gan Alan Winter, Mike Winter, Merlin De Oro, Alberto Williams a Vilma Roberts, darlleniadau o'r Beibl gan Mary a Sara Green a bendith gan Osvaldo Pasquet heb sôn am ganu brwd yr emynau yn Gymraeg a Sbaeneg gan y gynulleidfa. Yn ystod y gwasanaeth, fel symbol gwreiddiol o'r cyfnewid diwylliannol, gweinodd Eluned baned o de i Isaías ac yntau'n gweini *mate* iddi hi.



Wedyn aeth y criw i le ar gyrion Trevelin i ddathlu'r briodas sifil ac i fwynhau bwyd a baratowyd gan deulu Isaías a *pata flambeada* enfawr! Roedd dawnsio gan grŵp Gotango Trevelin a dawnsio gwerin gan bobl ifanc yr Ysgol Gymraeg, eitemau cerddorol gan ffrindiau, fideos o'r paratoadau ac wrth gwrs y *baile carioca*! Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau wrth iddyn nhw ddechrau ar yr antur newydd hon.

*Clare Vaughan*




Dymunwn ddiolch o waelod calon i'n rhieni (yn Nhrevelin ac yn Llanddarog) am bob cymorth a roddwyd ganddyn nhw wrth baratoi ar gyfer y diwrnod mawr. Diolch yn fawr yn ogystal i bawb am eu rhoddion caredig ac am rannu'r diwrnod arbennig gyda ni. Edrychwn ymlaen at ddathlu gyda theulu a ffrindiau yn Llanddarog ym mis Gorffennaf! *Isaías ac Eluned*

# Gair neu ddau o Gaerdydd



Cyfarchion cynnes atoch yn yr Andes o'r Hen Wlad a da ydy clywed am eich ymdrechion clodwiw i gadw'r Gymraeg yn fyw yn y parthau hynny. Mae'r frwydr yn parhau yng Nghymru hefyd i sicrhau dyfodol i'r iaith yma.

Dwy'n byw yng Nghaerdydd, prif ddinas ein gwlad ac mae hi'n ddinas hardd er nad yn arbennig o fawr fel Buenos Aires! Mae tair afon yn llifo drwy'r ddinas ac mae sawl parc braf a chastell, canolfan siopa, theatrau a sinemau, amgueddfa, Neuadd y Ddinas ac ati yma. Mae ychydig dros 300,000 yn byw yng Nghaerdydd ac yn ôl cyfrifion 2011, mae dros 30,000 o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn y ddinas. Felly, mae bywyd Cymraeg bywiog yn bodoli rhwng y capeli Cymraeg, clybiau, cymdeithasau, mudiadau a chorau.

Ces i fy ngeni mewn pentre o'r enw Llanisien ar gyrion y ddinas, ond pan o'n i'n dair oed, symudon ni i bentre cyfagos o'r enw Rhiwbeina. Sefydlwyd y pentre hwn nôl yn 1912 ac mae wedi tyfu ers hynny. Magwyd fy mrawd a minnau ar aelwyd Cymraeg lle gwaherddid y Saesneg! Daeth ein rhieni i fyw yng Nghaerdydd o'r Gogledd i weithio yma a chyfarfod â'i gilydd yn Rhiwbeina! Doedd dim addysg Gymraeg pan o'n ni'n blant a felly addysg Saesneg a gawson ni. Ond erbyn hyn mae sawl ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas a thair ysgol uwchradd Gymraeg.

Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Rhiwbeina ac mae Cylch Meithrin Cymraeg yma ers dros hanner can mlynedd a chapel Cymraeg a chymdeithas Gymraeg. Bob blwyddyn yn yr Haf cynhelir Cymanfa Ganu yn y pentre dan nawdd y Gymdeithas Gymraeg.

Mae Cangen y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin yn cyfarfod yn y ddinas o dro i dro ac mae nifer o bobl â chysylltiadau â Phatagonia yn byw yma. Daw Walter Ariel Brooks o Gomodoro Rivadavia, Veronica Kiff a Miriam Tilsley o'r Gaiman, Ana Clara Warren, Sandra de Pol a'i merch Azul o Drevelin ac Alcira Arthur o Drelew. Mae Elvira Moseley, Port Talbot ond gynt o Drevelin yn dod i'r cyfarfodydd hefyd. Ar ben hynny, mae nifer o gyn athrawon Cymraeg yn y Wladfa yn byw yma. Blynyddoedd lawer yn ôl, buodd Eluned Morgan y llenor a merch i Lewis Jones yn byw yn y ddinas am gyfnod a hefyd Abraham Mathews, Gweinidog cyntaf y Wladfa. Mae stryd wedi ei enwi ar ei ôl yn Nhrelew a chyn ymfudo draw buodd yn Weinidog ar gapel Horeb ger Aberdâr. Trist ydy cofnodi bod y capel hwnnw wedi cau bellach a llynedd fe'i gwerthwyd.

Mae papur bro tebyg i 'Llais yr Andes' gennyn ni yng Nghaerdydd ac mae hi'n ymddangos pob mis ac yn llawn o hanesion am y Cymry a'r bywyd Cymraeg yn y ddinas. Mae Lois Dafydd oedd yn cynhyrchu papur 'Clecs Camwy' wedi dychwelyd i Gymru a felly daeth y papur hwnnw i ben, ond mae 'Llais yr Andes' a'r 'Drafod' yn dal yn fyw a hir oes iddyn nhw ddyweda i! Edrychaf ymlaen at ddarllen y rhifyn nesa o 'Llais yr Andes' a chlywed am eich hanes yn yr Andes bell. Daliwch ati fel ninnau yng Nghymru i sicrhau llwyddiant yr achos.

*Gwilym E. Roberts*

## Clwb Gwawr



Mae'n bleser gen i gyhoeddi bod Clwb Gwawr newydd wedi dechrau yn Esquel. Gan fod gymaint o wragedd ifanc sy'n siarad Cymraeg yma, fe fydd yn ffordd hwyliog o gymdeithasu a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Y syniad yw ein bod yn cyfarfod ar ddiwedd bob mis a rydyn ni eisoes wedi cael dau gyfarfod - swper mewn bwyty a sesiwn Adweitheg (reflexology) dan arweiniad Liliana Melnik. Bu Liliana, un o diwtoriaid yr Ysgol Gymraeg yn siarad am ein clwb newydd ar raglen Geraint Lloyd, Radio Cymru rai misoedd yn ôl.

Rydym ni wedi creu rhaglen ar gyfer y flwyddyn gydag aelodau gwahanol yn gyfrifol am weithgareddau bob mis. Mae gweithgareddau gweddill y flwyddyn yn cynnwys dysgu sut i wneud crefftau a ffair fwyd - rhywbeth at ddant pawb.

Cadwch lygad ar wefan 'Clybiau Gwawr' www.clybiaugwawr.com, a'r dudalen Facebook: 'Clybiau Gwawr: Y Clwb i Ferched Cymru', tudalen facebook 'Clwb Gwawr Esquel' a chylchgrawn 'Y Wawr' yn ystod y misoedd nesaf - dw i'n siŵr y cewch ddarllen gair neu ddau am ein clwb newydd a gweld ambell lun hefyd!

---

**Beth ydy hoff siocled trigolion Esquel a Threvelin?**




Liliana - Cadbury ac After Eights

Alwen - Dairy Milk a Sahne Nuss efo almon

Clare - Mini eggs

Lilian - Nestle

Laura - siocled mint neu oren

Cristina - siocled efo mint

Sandra - siocled efo almon

Elvira - Toblerone

Jeremy - siocled tywyll

Esther - siocled efo almon

Isaías - siocled Cadbury

Lizzie ac Amanda - siocled efo mint o Chile



# Cornel Coginio

## TARTEN LIWIOG



Gan Alwen Green

Cynhwysion:

Rhaid cymysgu: 10 lond llwy fwrdd o flawd codi

10 llwyaid o olew

10 llwyaid o laeth

Yna, gosodwch y toes ar waelod y dysgl ffwrn ac arllwys arno:

200g o gaws meddal wedi'i dorri'n sgwariau

1 moron wedi'u gratio

Cymysgu 2 wy efo persli mân, halen, pupur a nytmeg.

Ei roi yn y ffwrn am hanner awr.

OPSIYNAU. Medrwch newid y moron am betys wedi ei gratio neu bigoglys yn rho ac yn fân. Hawdd iawn a mae'n bosib gwneud un coch, oren a gwyrdd!

Hoff ginio fy mab Alin!

**Geirfa**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Toes: | Masa | Bywoliaeth: | Ganarse la vida | Mudiad: | Organización |
| Gweithga-redd: | Actividad | Clyd: | Cómodo | Gweinidog: | Pastor |
| Dringwr: | Escalador | Trydar: | Pío/piar | | |
| Cwrdd Diolch-garwch: | Culto de Ac-ción de Gracias | Hyrddod: | Carneros | | |
| Diddanu: | Entretener | Machlud haul: | La puesta del sol | | |
| Croesawu: | Dar la bienve-nida | Cyfaill: | Amigo | | |




**Digwyddiadur**

Mae nifer o weithgareddau eraill ar y gweill gan gynnwys 'Noson Siôn a Siân' yn Nhrevelin nos Wener yr 16eg o Fai, 'Twmpath' yn Esquel (dyddiad i'w gadarnhau) a gweithgaredd Clwb Gwawr mis Mai (dan ofal Diana Nichols). Bydd noson yng nghwmni Llŷr Gwyn, Bardd Preswyl cyntaf BBC Radio Cymru yn y Ganolfan yn Esquel nos Wener, 23ain o Fai. Manylion i ddod!

**Dyma groesair buddugol Eisteddfod diwedd blwyddyn Ysgol Gymraeg Esquel y llynedd. Llongyfarchiadau i Diana Nichols (dosbarth Uwch) am ennill y gystadleuaeth!**

## CROESAIR: Y gwyliau



### I lawr

1-Y cyflwr o bod yn boeth
2-Mae llawer o ddwr gyda fo
3-Arddodiad
4-Mae o´n cael ei fesur mewn oriau, munudau ac eiliadau
5-Glan môr neu lyn
6-Bolaheulo
7-Y tymor ar ôl y gwanwyn

### Ar draws

1- Dadflino
2-Treulio amser mewn gwersyll
3-Hamddena
4-Dwr yn llifo
5-Y fford naturiol i berson symud ar ben ei goesau
6-Seren y mae planedau yn teithio o´i chwmpas



Ffugenw: Glas y gors

